BDCTM CTMSB
BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG CWM TAF MORGANNWG SAFEGUARDING BOARD

# Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

## Cynllun Blynyddol 2019/20

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG** | **3** |
| **Beth yw Cam-drin ac Esgeulustra?**<br>Diogelu i Bawb<br>Pwy yw Aelodau'r Bwrdd Diogelu?<br>Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu? | **4** |
| **BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?** | **5** |
| **1.** Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl rhag effaith cam-drin yn y cartref | **6 - 10** |
| **2.** Gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, ymgysylltu a hyrwyddo cyfranogiad gydag ein cymunedau ac asiantaethau partner | **10 – 13** |
| **3.** Sicrhau bod y broses bontio i'r ôl troed rhanbarthol newydd ar gyfer diogelu yn cael ei rheoli'n effeithiol | **13 - 15** |
| **Â PHWY RYDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION?** | **16 – 17** |
| **Oes gyda chi bryderon am rywun?** | **18** |
| **ATODIAD 1 - AELODAU'R BWRDD** | **19 – 21** |
| **ATODIAD 2 - STRWYTHUR Y BWRDD** | **22** |

## DIOGELU YNG NGHWM TAF MORGANNWG

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gyfrifol am wasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o 1 Ebrill 2019. Mae hyn yn golygu y bydd strwythurau partneriaeth cysylltiedig o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol ar draws rhanbarth y Bae Gorllewinol yn trosglwyddo i Gwm Taf, gan greu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol newydd ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg.

Dyma'r Cynllun Blynyddol cyntaf ar gyfer Bwrdd Diogelu newydd Cwm Taf Morgannwg.

Mae ardal Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf lle mae bron â 440,000 o drigolion.

Mae **Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg** yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Bwriad y Bwrdd yw sicrhau bod pobl o bob oed, sy'n byw yn y rhanbarth, yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn cynnwys atal cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Mae cadw plant ac oedolion sydd efallai ag anghenion gofal a chymorth yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn y cartref, y gymuned, yr ysgol, y gweithle neu unrhyw le arall.

Mae'r ddau brif amcan **diogelu** allweddol o ran **amddiffyn** ac **atal** yn sail i waith y Bwrdd Diogelu ac yn llywio'r blaenoriaethau rydyn ni wedi cytuno arnyn nhw yn y Cynllun Blynyddol yma ar gyfer 2019/2020.

Mae **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf** o fewn strwythur y Bwrdd ac yn cynnwys ardaloedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Bwriad yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch. Mae'r Hwb wedi gwella trefnau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn sylweddol, gan helpu i amddiffyn y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag niwed, esgeulustra a cham-drin.

Mae **Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr** yn darparu gwasanaethau diogelu trwy'r awdurdod lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid, a hynny mewn lleoliadau ar y cyd a thrwy rithgysylltiadau. Mae'r Hwb yn darparu cyfle ar gyfer diogelu o safon uwch trwy roi rhagor o wybodaeth i bob gweithiwr proffesiynol er mwyn iddo wneud penderfyniadau gwell sy'n fwy deallus. Mae'r Hwb yn galluogi rhannu gwybodaeth, o safon uwch, yn gynharach, yn ogystal â dadansoddi risgiau a gwneud penderfyniadau

symlach wrth sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd ar yr adeg briodol. Mae hefyd yn darparu cyfle am ymyrraeth gynnar ac atal atgyfeiriadau rheolaidd.

## Beth yw Cam-drin ac Esgeulustra?

- Mae'r term cam-drin yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.
- Mae'r term esgeuluso yn golygu peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les.

## Diogelu i Bawb

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni ei amcanion yn unol â chanllawiau statudol cenedlaethol fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ein hamcan yw gwella trefniadau diogelu ar gyfer pawb. Mae cydweithio rhwng trefniadau diogelu plant ac oedolion yn yr ardal wedi arwain at nifer o swyddogaethau ar y cyd, gan gynnwys Bwrdd Diogelu ar y cyd. Mae'r Bwrdd yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i gydweithio ar draws gwasanaethau diogelu plant ac oedolion i gefnogi gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth a dysgu.

## Pwy yw Aelodau'r Bwrdd Diogelu?

Prif bartner y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol sydd yn Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae rhestr o aelodau wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

## Beth yw Swyddogaethau Craidd y Bwrdd Diogelu?

Mae gan bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gyflawni swyddogaethau craidd mewn perthynas â diogelu amlasiantaeth. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn cyflawni'r swyddogaethau yma o ddydd i ddydd trwy sefydlu pwyllgorau ac is-grwpiau penodol (gweler Atodiad 2). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a monitro protocolau a gweithdrefnau sy'n helpu i ddiogelu oedolion a phlant ac i'w hatal rhag cael eu cam-drin

- Codi ymwybyddiaeth o amcanion y Bwrdd i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, ac i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae modd cyflawni hyn

- Adolygu effeithiolrwydd mesurau wedi'u cymryd gan asiantaethau i weithredu amcanion y Bwrdd a gwneud a monitro argymhellion

- Cynnal adolygiadau ymarfer plant, adolygiadau ymarfer oedolion, archwiliadau, ymchwiliadau ac arolygon eraill sydd eu hangen yn unol â'i amcanion ac er mwyn dosbarthu dysgu a gwybodaeth sy'n codi o'r arolygon yma

- Adolygu cyflawniad y Bwrdd a'i bartneriaid a chyrff sydd â chynrychiolwyr ar y Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion

- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn ac atal cam-drin ac esgeuluso plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed

- Adolygu anghenion hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant i helpu i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac i atal hynny.

## BETH YW'R DEILLIANNAU RYDYN NI'N BWRIADU EU CYFLAWNI ELENI?

Yn ogystal â chyflawni'r swyddogaethau diogelu statudol craidd, mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi cytuno ar nifer o flaenoriaethau allweddol i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dyma'r meysydd penodol fydd yn gwella a chefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion:

### 1 Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl rhag effaith cam-drin yn y cartref

### 2 Gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, ymgysylltu a hyrwyddo cyfranogiad gydag ein cymunedau ac asiantaethau partner

## 3 Sicrhau bod y broses bontio i'r ôl troed rhanbarthol newydd ar gyfer diogelu yn cael ei rheoli'n effeithiol

Bydd cynllun gwaith manwl ar gyfer y Bwrdd a'i is-grwpiau o dan y Cynllun Blynyddol strategol yma. Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau, yr unigolyn cyfrifol, graddfeydd amser a dulliau mesur llwyddiant. Bydd cynnydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro a'i adolygu bob chwarter a bydd yn sail i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/2020.

Mae trosolwg o'r hyn mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud i gyflawni'i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod wedi'i nodi isod.

| **Blaenoriaeth Strategol 1: Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl rhag effaith cam-drin yn y cartref** |
|---|
| Mae cam-drin yn y cartref yn cynnwys unrhyw fath o reoli, bwlio, ymddygiad bygythiol neu ymosodol rhwng partneriaid neu aelodau o'r teulu, beth bynnag fo'ch oedran, rhyw neu rywioldeb.<br><br>Caiff pob math o gam-drin yn y cartref effaith ddifrifol ar y rheini sy'n ei ddioddef. Mae'r effaith y caiff cam-drin yn y cartref ei chael ar blant a phobl ifainc yn ddinistriol. Mae modd iddo arwain at broblemau yn oedolyn a chael effaith niweidiol ar iechyd a lles. Mae hyn yn debyg i'r effaith ar bobl hŷn ond yn aml, dydy cam-drin yn y cartref ddim mor amlwg neu dydyn nhw ddim yn effro i'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Bydd rhai pobl yn fwy agored i gam-drin yn y cartref, megis pobl anabl nad oes gyda nhw, o bosibl, y gallu i amddiffyn eu hunain a/neu'n llai abl i fanteisio ar gymorth.<br><br>Yng Nghwm Taf, rhwng mis Ionawr a Rhagfyr 2018, cafodd 980 o achosion cam-drin yn y cartref risg uchel eu hatgyfeirio i broses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC).<br><br>Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn nodi'r gofynion ar gyfer ymateb sector cyhoeddus gwell ar y cyd i'r ffordd mae'r problemau yma yn cael eu datrys, i gefnogi dioddefwyr ac atal cam-drin rhag digwydd. Mae grwpiau llywio o dan Bartneriaethau Cymunedau Diogel Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr sy'n cyflawni strategaethau rhanbarthol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).<br><br>Bydd y Bwrdd Diogelu yn darparu'r flaenoriaeth strategol yma yn unol â'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer dioddefwyr a'u teuluoedd. |

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Atal Cam-drin Domestig** | **Er mwyn ATAL cam-drin, byddwn ni'n gwneud y canlynol:**<br>Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ynglŷn â sut i nodi ac ymateb i gam-drin yn y cartref (gweler Blaenoriaeth Strategol 2)<br>Codi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gofal a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda grwpiau sydd â risg uwch o gael eu cam-drin yn y cartref<br>Sicrhau bod cynrychiolwyr o bob grŵp proffesiynol yn bresennol ar raglenni hyfforddi diogelu amlasiantaeth sy'n trafod cam-drin yn y cartref, gan gynnwys Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a hyfforddiant y Ddeddf<br>Hyrwyddo gwaith y rheini sy'n darparu addysg perthnasau iach yn yr ysgol i dorri'r cylch bod plant a phobl ifainc sy'n cael eu magu o gwmpas cam-drin yn y cartref yn dod yn ddioddefwyr neu'n unigolion sy'n cyflawni'r drosedd yn oedolion<br>Gwneud cysylltiadau â'r colegau a'r brifysgol yn y rhanbarth i gefnogi gwaith y bwrdd o ddiogelu pobl rhag cam-drin yn y cartref<br>Sicrhau bod yna gyfleoedd hyfforddi ar gyfer pob asiantaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ar bobl ifainc ac oedolion | ▪ Dangos ymwybyddiaeth uwch o gam-drin yn y cartref trwy werthusiadau hyfforddi<br>▪ Dangos ymwybyddiaeth uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) trwy werthusiadau hyfforddi<br>▪ Mynd i'r afael â diffygion ymarfer wedi'u nodi yn Adolygiadau Ymarfer Plant ac archwiliadau a dangos deilliannau ymarfer gwell<br>▪ Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau cam-drin yn y cartref gan y trydydd sector<br>▪ Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi gwybod ac yn dangos bod y dysgu a'r datblygiad maen nhw'n eu cael mewn perthynas â cham-drin yn y cartref wedi gwella eu hymarferion a deilliannau ar gyfer y plant a theuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw |

| | | |
|---|---|---|
| **Amddiffyn a chefnogi plant sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin yn y cartref** | **Byddwn ni'n AMDDIFFYN a CHEFNOGI plant trwy:**<br>Sicrhau bod effaith a risgiau cam-drin yn y cartref yn llywio asesiadau a chynlluniau proffesiynol<br>Sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei geisio a'i glywed ym mhob gweithgaredd y Bwrdd sydd wedi'i anelu at amddiffyn plant a phobl ifainc rhag cam-drin yn y cartref<br>Cydnabod cam-drin yn y cartref, lle mae'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd yn berson ifanc (rhwng 13 a 18 oed) ac sy'n ymateb mewn modd addas<br>Sicrhau bod gwaith yn cael ei gynnal gyda'r unigolyn sy'n cyflawni'r drosedd i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol a chymryd diddordeb gweithredol<br>Archwilio i rinweddau ehangu'r model sydd wedi'i fabwysiadu yn barod ym Mhen-y-bont ar Ogwr sef rhoi gwybod i ysgolion cyn y diwrnod ysgol nesaf, am ddigwyddiadau o gam-drin yn y cartref sy'n berthnasol i'w disgyblion, gan alluogi ysgolion i ymateb mewn modd addas | ▪ Sicrhau bod Cynlluniau Amddiffyn Plant yn arwain at welliannau gwrthrychol, go iawn, o ran lles a diogelwch plant a'u teuluoedd<br>▪ Sicrhau bod plant a rhieni yn nodi gwelliannau cadarnhaol o ran eu diogelwch a lles o ganlyniad i waith y Cynlluniau Amddiffyn Plant<br>▪ Gweld bod trais yn y cartref yn lleihau/dod i ben o ran y teuluoedd lle cafodd ei bennu'n berygl<br>▪ Gostyngiad yn nifer Hysbysiadau Amddiffyn yr Heddlu ar gyfer cam-drin yn y cartref<br>▪ Cynnydd yn nifer y troseddwyr sy'n ymgysylltu trwy raglenni |
| **Amddiffyn a chefnogi oedolion mewn perygl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin yn y cartref** | **Byddwn ni'n AMDDIFFYN a CHEFNOGI oedolion mewn perygl trwy:**<br>Ceisio sicrwydd bod trafodaethau strategol yn cael eu cynnal ar sail amlasiantaeth lle mae arwyddion bod cam-drin yn y cartref yn digwydd<br>Gwneud cysylltiadau rhwng diogelu oedolion a cham-drin yn y cartref i ddeall y rhwystrau o ran rhoi gwybod mae pobl hŷn yn eu hwynebu | ▪ Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau MARAC gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol i oedolion<br>▪ Sicrhau bod oedolion mewn perygl yn nodi gwelliannau cadarnhaol o ran eu diogelwch a lles o ganlyniad i waith eu Cynlluniau Gofal a Chymorth |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoi cymorth penodol i'r grwpiau sydd mwyaf agored i niwed ac sydd â pherygl uchel o gael eu cam-drin yn y cartref e.e. menywod beichiog, pobl ag anabledd dysgu, pobl LHDT, a phobl â phroblemau iechyd meddwl<br><br>Bod yn fodlon ystyried darparu eiriolwr gallu meddyliol annibynnol ym mhob achos lle nad oes gan berson allu meddyliol i wneud penderfyniadau am gadw ei hun yn ddiogel rhag cam-drin yn y cartref<br><br>Sefydlu trefniadau rhoi gwybod gwell ar gyfer darparwyr gofal lle mae trosedd wedi'i chyflawni | ▪ Gweld bod trais yn y cartref yn lleihau/dod i ben o ran y teuluoedd lle cafodd ei bennu'n berygl<br>▪ Gostyngiad yn nifer Hysbysiadau Amddiffyn yr Heddlu ar gyfer cam-drin yn y cartref |
| **Dysgu yn sgil Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref** | **Byddwn ni'n gweithio ar y cyd â'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i wneud y canlynol:**<br><br>Cwblhau Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref sy'n bodloni meini prawf y Swyddfa Gartref a darparu dysgu amserol<br><br>Sicrhau bod unrhyw beth wedi'i ddysgu yn sgil Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref wedi'u cyhoeddi yn cael ei rannu'n addas a'i fod yn cael effaith gadarnhaol ar ymarferion<br><br>Cynnal prosiect peilot mewn cydweithrediad â Bwrdd Diogelu Gwent i gynnal Adolygiad Dynladdiadau Trais yn y Cartref gan ddefnyddio proses Adolygiadau Ymarfer Oedolion | ▪ Gwella nifer yr Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref gan fodloni graddfeydd amser a safonau ansawdd y Swyddfa Gartref<br>▪ Cynnydd yn nifer yr ymarferwyr sy'n derbyn gwybodaeth am ddysgu yn sgil adolygiadau<br>▪ Gwella ymarfer yn dilyn camau gweithredu o ganlyniad i ddysgu yn sgil adolygiadau |
| **Proses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)** | **Gan ddysgu yn sgil y model sydd wedi'i sefydlu yn barod ym Mhen-y-bont ac adeiladu arno, byddwn ni'n gwella'r broses MARAC trwy:**<br><br>Parhau i integreiddio gwaith y MARAC yn swyddogaethau'r Hybiau Diogelu Amlasiantaeth o ddydd i ddydd<br><br>Cwblhau fframwaith datblygu sicrwydd ansawdd a chyflawniad ar gyfer y broses MARAC a chytuno ar fecanweithiau rhoi gwybod | ▪ Gostyngiad yn nifer y dioddefwyr rheolaidd o gam-drin yn y cartref<br>▪ Byddwn ni'n derbyn adroddiadau gwybodaeth ddiweddaraf a chyflawniad gan y Bartneriaeth Cymunedau Diogel / Bwrdd VAWDASV ar |

| | | |
|---|---|---|
| | Datblygu fframwaith a meini prawf ar gyfer y broses MARAC i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar risgiau a chamau gweithredu a gytunwyd arnyn nhw gan gynnwys defnyddio dulliau o weithio'n fwy effeithiol gyda'r rheini nad ydyn nhw'n ymgysylltu â darpariaethau gwasanaethau | ddatblygiadau rhanbarthol MARAC<br>▪ Gostyngiad yn nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i'n prif gynhadledd (MARAC) |

## Blaenoriaeth Strategol 2: Gwella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu, ymgysylltu a hyrwyddo cyfranogiad gydag ein cymunedau ac asiantaethau partner

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Diogelu godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, ac i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae modd cyflawni hyn. Yn rhan o ddatblygu diwylliant o ddysgu cadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd Diogelu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n eang o fewn y gweithlu i'w hysbysu am yr ymarfer gorau a'r dysgu sy'n codi o adolygiadau, archwiliadau a gweithgareddau eraill y Bwrdd.

Mae hefyd yn hanfodol i ni roi cyfle i blant, pobl ifainc ac oedolion gymryd rhan yn ein gwaith. Rydyn ni eisiau gwneud hyn mewn modd creadigol i godi proffil diogelu yn y rhanbarth. Eleni, ein bwriad yw cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella cysylltiadau â fforymau lleol a grwpiau gweithgareddau i sicrhau ein bod ni'n cynnwys lleisiau'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi yn ein gwaith.

Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod adborth sy'n dod i law o ganlyniad i'r gweithgareddau yma yn cael ei gofnodi a'i werthuso.

Mae gan y Bwrdd grŵp sefydledig sydd â'r bwriad o sicrhau bod prosesau clir yn eu lle ar gyfer nodi anghenion ymgysylltu a chyfranogi, a chofnodi gweithgareddau asiantaethau partner o ran bodloni'r anghenion yma. I wella'r swyddogaeth yma, dyrannodd yr asiantaethau partner statudol adnoddau ychwanegol yn 2019 i sicrhau swydd benodol i gefnogi'r gwaith yma.

| Maes Blaenoriaeth | Beth sydd angen i ni'i wneud? | Dangosyddion Deilliannau |
|---|---|---|
| **Darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd a'r angen i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl.** | **Byddwn ni'n gwella ein dulliau CYFATHREBU trwy:**<br>Adolygu'r Strategaeth Cyfathrebu a Chyfranogi bresennol i gynnwys y canlynol:<br>▪ Sut byddwn ni'n rhoi gwybod i bobl am waith y Bwrdd; a<br>▪ Sut byddwn ni'n codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl<br>Rhannu'r dysgu yn sgil Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref ac archwiliadau i ategu gwelliannau o ran ymarfer diogelu amlasiantaeth<br>Cofnodi'r gweithgareddau cyfathrebu diogelu wedi'u cynnal gan ein hasiantaethau partner i fesur pa mor dda rydyn ni'n gwneud ledled y rhanbarth<br>Gwella gwefan Cwm Taf Morgannwg fel ei bod yn fwy addas i ddefnyddwyr a'i bod yn adnodd defnyddiol i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd<br>**Byddwn ni'n gwella ein dulliau YMGYSYLLTU â phobl trwy:**<br>Cynnal achlysuron ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chymunedau yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu<br>Defnyddio Wythnos Genedlaethol Diogelu i ymgysylltu â'n cymunedau a gweithwyr proffesiynol | ▪ Cynnal rhagor o achlysuron diogelu a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth<br>▪ Mynd ati i dderbyn adborth cadarnhaol o ganlyniad i'r gweithgareddau yma<br>▪ Ymwybyddiaeth uwch mewn cymunedau lle mae mesurau diogelu a gwaith y Bwrdd yn cael eu cynnal<br>▪ Creu gwefan well<br>▪ Cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i wefan y Bwrdd<br>▪ Cynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am weithgareddau asiantaethau partner ac sy'n effro iddyn nhw |
| **Cyfraniad** | **Byddwn ni'n rhoi cyfle i bobl GYMRYD RHAN yng ngwaith y Bwrdd trwy:**<br>Cynnal ymarfer mapio ledled y rhanbarth i bennu pa waith cyfranogi sydd wrthi'n cael ei gynnal gan asiantaethau | ▪ Cynnydd yn nifer y plant ac oedolion sy'n cael cynnig cymorth eiriolaeth neu'n manteisio ar y cymorth yma |

| | | |
|---|---|---|
| | Sicrhau bod gan y bobl rydyn ni'n eu diogelu lais, gan gynnwys gwneud yn fawr o wasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod llais y plant ac oedolion mewn perygl yn cael ei glywed trwy waith y Bwrdd<br><br>Adeiladu ar gysylltiadau presennol â fforymau/grwpiau ieuenctid ledled y rhanbarth i roi cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd<br><br>Adeiladu ar gysylltiadau presennol â fforymau/grwpiau i oedolion i roi cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd<br><br>Datblygu ysgol cymryd rhan er mwyn i'r Bwrdd ddangos pa mor effeithiol rydyn ni'n ymgysylltu â phlant, pobl ifainc ac oedolion | ▪ Cynnydd yn nifer y plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd<br>▪ Datblygu Bwrdd Diogelu Plant Iau<br>▪ Datblygu Ysgol Cymryd Rhan ar gyfer y Bwrdd |
| **Canolbwyntio ar bobl sydd fwyaf agored i gam-drin yn y cartref a/neu esgeulustod** | Byddwn ni'n codi ymwybyddiaeth o weithgareddau diogelu a'u hyrwyddo, a hynny mewn perthynas â **themâu amlwg** a'r bobl hynny sydd **fwyaf agored i niwed** gan gynnwys:<br>▪ Cam-drin yn y Cartref (gan gynnwys grym cymhellol) – datblygu ymgyrch gwybodaeth i'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol i'w galluogi nhw i nodi ac ymateb i arwyddion cam-drin yn y cartref gan gyfeirio'n arbennig at oedolion mewn perygl, megis pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl a phobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>▪ Llinellau Sirol (County Lines) – sicrhau bod staff/partneriaid yn manteisio ar hyfforddiant Llinellau Siriol a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n addas i wella dealltwriaeth ledled y bartneriaeth<br>▪ Radicaleiddio – cwblhau Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaeth mewn perthynas ag achos proffil uchel a dosbarthu darganfyddiadau i staff/asiantaethau partner<br>▪ Ansawdd Gofal i Bobl Hŷn – codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo safonau uchel o ofal a deilliannau gwell i unigolion | ▪ Byddwn ni'n derbyn adroddiadau gwybodaeth ddiweddaraf a chyflawniad gan y Bartneriaeth Cymunedau Diogel / Bwrdd VAWDASV ar y meysydd o weithgarwch sydd o ddiddordeb i'r Bwrdd o ran diogelu<br>▪ Ymwybyddiaeth uwch o'r ffactorau sy'n cyfrannu at Linellau Sirol a'r effaith bosibl yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg<br>▪ Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau PREVENT<br>▪ Ymwybyddiaeth uwch ymhlith asiantaethau partner o'r ffactorau sy'n cyfrannu at radicaleiddio |

| | | |
|---|---|---|
| | | pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed |

| **Blaenoriaeth Strategol 3: Sicrhau bod y broses bontio i'r ôl troed rhanbarthol newydd ar gyfer diogelu yn cael ei rheoli'n effeithiol** | | |
|---|---|---|
| O 1 Ebrill 2019, bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Mae cytundeb wedi'i roi i Lywodraeth Cymru y bydd y Bwrdd newydd yma yn cael ei enwi'n Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrthi'n cael eu diwygio i adlewyrchu newidiadau i'r ôl troed rhanbarthol ar gyfer y Bwrdd Diogelu.<br><br>Mae angen dulliau cynllunio a rheoli effeithiol ar gyfer y broses bontio yma i sicrhau bod modd i'r Bwrdd a'i asiantaethau partner barhau i gynnal swyddogaethau diogelu craidd yn ystod yr adeg yma o newid. Yn dilyn diwrnod datblygu ar y cyd, cytunwyd y bydd rheoli'r broses bontio yn un o'n blaenoriaethau strategol eleni. | | |
| **Maes Blaenoriaeth** | **Beth sydd angen i ni'i wneud?** | **Dangosyddion Deilliannau** |
| **Llywodraethu** | Er mwyn cyflawni **trefniadau llywodraethu** effeithiol ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol newydd, byddwn ni'n gwneud y canlynol:<br><br>Adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl y Bwrdd a phob is-grŵp y Bwrdd i sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol wedi'u cynrychioli<br><br>Cytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen i reoli busnes y Bwrdd, gan gynnwys cyfraniadau ariannol ein hasiantaethau partner<br><br>Datblygu rhaglen waith ar y cyd ar gyfer y Bwrdd, fydd yn darparu'r camau gweithredu, graddfeydd amser a chyfrifoldebau manwl i weithredu'r Cynllun Blynyddol | ▪ Sefydlu trefniadau llywodraethu clir ledled y rhanbarth<br>▪ Rhoi trefniant adnoddau a chyllideb yn ei le ledled y rhanbarth |

| | | |
|---|---|---|
| **Protocolau a Gweithdrefnau** | Byddwn ni'n sicrhau bod gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol newydd ystod o **brotocolau a gweithdrefnau** i ategu cyflawniad ei swyddogaethau diogelu trwy:<br>Pennu'r dogfennau sy'n berthnasol i Gwm Taf (Merthyr a RhCT) a Phen-y-bont ar Ogwr a datblygu protocolau a gweithdrefnau newydd ar y cyd<br>Pennu'r dogfennau sy'n benodol i bob ardal a chytuno ar y rheini fydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol newydd<br>Datblygu ffurflenni a thempledi ar y cyd i ategu ein prosesau diogelu lle bo modd | ▪ Nifer y dogfennau sy'n cael eu hadolygu a'u mabwysiadu ledled y rhanbarth newydd<br>▪ Gwerthusiadau cadarnhaol gan weithwyr proffesiynol yn dilyn gweithredu protocolau a gweithdrefnau diwygiedig |
| **Hyfforddiant a Dysgu** | Byddwn ni'n ceisio cyfleoedd i unioni'r gweithgareddau **hyfforddi a dysgu** diogelu ledled y rhanbarth trwy:<br>Adolygu cylch gwaith yr Is-grŵp Hyfforddi a Dysgu presennol i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y rhanbarth<br>Ceisio cyfleoedd i gydweithio ar weithgareddau hyfforddi diogelu ledled y rhanbarth<br>Cytuno ar brosesau i bennu a rhannu dysgu yn sgil archwiliadau ac adolygiadau diogelu gydag ymarferwyr | ▪ Cynyddu nifer y gweithgareddau hyfforddi ar y cyd sy'n cael eu cynnal ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg |
| **Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion** | Er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol mewn perthynas â chwblhau **adolygiadau ymarfer plant ac oedolion** , byddwn ni'n gwneud y canlynol:<br>Adolygu cylch gorchwyl y grwpiau adolygu presennol i sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ledled y rhanbarth<br>Cytuno ar broses atgyfeirio ar gyfer adolygiadau ymarfer plant ac oedolion<br>Pennu grŵp o adolygwyr â sgiliau addas i gyflawni adolygiadau ymarfer plant ac oedolion | ▪ Sicrhau bod cylch gorchwyl clir ar gyfer grŵp/grwpiau adolygiadau plant/oedolion yn eu lle<br>▪ Sicrhau bod proses gyffredin yn ei lle ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg i atgyfeirio achosion, cyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytuno ar brosesau ar gyfer cymeradwyo, dosbarthu a monitro deilliannau'r adolygiad | adolygiadau a rhannu dysgu |
| **Sicrwydd Ansawdd a Chyflawniad** | Mae angen datblygu a chytuno ar ddull cyson o fesur **ansawdd** gweithgareddau diogelu ac adolygu **cyflawniad** trwy:<br>Llunio dull rhanbarthol tuag at sicrhau ansawdd, gan gynnwys rhaglenni, adnoddau a phrosesau archwilio i ategu gwelliannau i ymarfer amlasiantaeth<br>Cytuno ar ystod o fesurau cyflawniad i fodloni'r Bwrdd bod gweithgareddau diogelu sy'n cael eu cynnal gan ei asiantaethau partner yn effeithiol a'u bod nhw'n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl<br>Datblygu Adnodd Archwilio Asiantaeth Partner i ategu ein gwaith o fesur effaith y gwaith y mae'r Bwrdd yn ei wneud | ▪ Sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd a chyflawniad clir ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, gan ymdrin â diogelu plant ac oedolion<br>▪ Sicrhau bod archwiliadau thematig yn cael eu cynnal ar sail rhanbarth Cwm Taf Morgannwg sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol y Bwrdd |
| **Hybiau Diogelu Amlasiantaeth** | Byddwn ni'n sefydlu cysylltiadau rhwng **Hwb Diogelu Amlasiantaeth** Cwm Taf (Merthyr a RhCT) a Phen-y-bont ar Ogwr a phennu cyfleoedd i rannu ymarfer da | ▪ Sefydlu cysylltiadau rhwng Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu |
| **Partneriaethau Rhanbarthol** | Byddwn ni'n sefydlu cysylltiadau rhanbarthol â **phartneriaethau** eraill er mwyn cefnogi a hyrwyddo materion diogelu ac amddiffyn y cyhoedd | ▪ Sefydlu cysylltiadau rhwng y Bwrdd Diogelu a phartneriaethau eraill a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu |

## Â PHWY RYDYN NI'N BWRIADU CYDWEITHIO I GYFLAWNI EIN HAMCANION?

Mae gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn rhan annatod o waith y Bwrdd. Mae hyn yn berthnasol i asiantaethau'r rhanbarth ac yn berthnasol i waith cydweithio ehangach â Byrddau ac asiantaethau eraill ledled y DU e.e. wrth gyflawni adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd angen i'r Bwrdd ymgysylltu â sefydliadau eraill i gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn ôl yr angen neu'n rhan o drefniant sy'n fwy parhaol trwy fod yn aelod o Fwrdd neu Is-grŵp.

Bydd y gweithgareddau cydweithio yma yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn aml wrth i sefyllfaoedd godi. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Blynyddol (sy'n cael ei gyhoeddi ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn).

Mae gweithgareddau cydweithio arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod wedi'u nodi, sef:

| Â phwy byddwn ni'n cydweithio? | Meysydd cydweithio? |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | ▪ Lleoliadau tu allan i'r sir i Blant sy'n Derbyn Gofal – dyma faes rydyn ni wedi'i bennu fel un y mae angen cynnal rhagor o waith arno, a hynny ar sail genedlaethol<br>▪ Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant/Cam-drin Plant yn Rhywiol – aros i dderbyn cynllun yr Haf 2019, gyda disgwyliad y bydd angen gweithredu ar hyn yn gynnar yn 2020 |
| **Partneriaeth Cymunedau Diogel** | ▪ Cam-drin yn y Cartref, Adolygiadau Dynladdiadau Trais yn y Cartref – gweler blaenoriaeth 1 am ragor o fanylion<br>▪ Radicaleiddio (PREVENT) a Chamfanteisio Troseddol (Llinellau Sirol) – gweler Blaenoriaeth 2 am ragor o fanylion |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Diogelu Gwent** | ▪ Adolygiad Peilot Dynladdiadau Trais yn y Cartref ar achos Rhondda Cynon Taf – i'w gwblhau yn y flwyddyn sydd i ddod |
| **Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro** | ▪ Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan Newydd – mae Caerdydd a'r Fro yn arwain y darn yma o waith i ddiweddaru Gweithdrefnau Cymru Gyfan i amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso |
| **Bwrdd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol** | ▪ Caethwasiaeth Fodern – nifer yr achosion yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg |
| **Arolygiaeth Gofal Cymru** | ▪ Gweithredu Fframwaith Arolygu newydd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer diogelu oedolion |
| **Trydydd Sector** | ▪ Ymgysylltu â swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, cysylltiadau â chymunedau, cynnal hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth a darparu gwasanaethau |
| **Parc Prison, Pen-y-bont ar Ogwr** | ▪ Deall rôl ddiogelu'r carchar a'i gysylltiadau â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol |

## EIN CYLLIDEB AR GYFER 2019/20

Mae'r Bwrdd yng nghanol proses o gytuno ar gyllideb ar gyfer y flwyddyn fydd yn cael ei hariannu gan gyfraniadau ariannol yr asiantaethau partner statudol. Bydd y gyllideb wedi'i phennu yn galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddeilliannau blaenoriaeth fel sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Blynyddol yma. Dyma'r dyraniadau arfaethedig:

| | |
|---|---|
| Costau Staff a Llety'r Uned Rheoli Busnes: | £187,355 |
| Hysbysebu a Chyfieithu: | £4,000 |
| Gwariant Cyffredinol: | £5,600 |

## Oes gyda chi bryderon am rywun?

Os ydych chi'n amau bod **plentyn neu berson ifanc** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Merthyr Tudful: 01685 725000
Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320

Oriau agor:
Llun–Iau 8.30am–5.00pm
Gwener 8.30am–4.30pm

Os ydych chi'n amau bod **oedolyn** yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano ar unwaith. Bydd pob galwad sy'n ymwneud â phryderon yn cael ei chymryd o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Rhondda Cynon Taf: 01443 425003
Merthyr Tudful: 01685 725000
Pen-y-bont ar Ogwr: 01656 642477

Oriau agor:
Llun–Iau 8.30am–5.00pm
Gwener 8.30am–4.30pm

I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant neu Wasanaethau i Oedolion y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau Cwm Taf Morgannwg ar 01443 743665.

**Os ydych chi'n amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999 a siarad â'r Heddlu.**

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle does dim angen ymateb ar frys, neu os oes ymholiad cyffredinol gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif di-argyfwng 24 awr yr heddlu. ***Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai pwysig na 999.***

## Cofiwch – mae diogelu yn fater i bawb!

**Am ragor o wybodaeth a chyngor, ewch i: www.cwmtafsafeguarding.org ***

* gwefan CTM newydd ar y gweill

## ATODIAD 1 – AELODAU'R BWRDD

| ENW | TEITL | ASIANTAETH |
|---|---|---|
| Giovanni Isingrini<br>Louise Davies<br>Jackie Neale<br>Neil Elliot<br>Julie Clark<br>Gaynor Davies<br>Ann Batley<br>Cara Miles | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant (Cyd-gadeirydd)<br>Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd<br>Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion<br>Pennaeth Diogelu a Chymorth (Plant)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant<br>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Gofal yn y Gymuned a Phlant | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lisa Curtis-Jones<br>Jon Eyre<br>Alyn Owen<br>Susan Walker<br>Annabel Lloyd<br>Angela Edevane<br>Carys Kennedy | Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd)<br>Blaen Reolwr Diogelu<br>Prif Swyddog, Adfywio Cymunedau<br>Prif Swyddog, Addysg<br>Pennaeth Gwasanaethau i Blant<br>Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion<br>Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Susan Cooper<br><br>Laura Kinsey<br><br>Jacqueline Davies | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd)<br><br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant<br><br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br><br>Rhagor o aelodau i'w nodi | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Angela Hopkins<br><br>Louise Mann | Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion<br><br>Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Karen Thomas<br><br>Claire Evans<br><br>Beth Aynsley/Sue Hurley | Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd<br><br>Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol Ganolog<br><br>Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed | Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Prif Swyddog Cynorthwyol | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| David Bebb | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Jason Evans<br><br>Ian Coles | Pennaeth yr Uned i Bobl Ifainc<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro | Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifainc |
| Heidi Bennett | Cyfarwyddwr | Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ian Davy | Prif Swyddog | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| **Maria James** | **Cynrychiolydd y Trydydd Sector** | **Interlink** |
| **Lyndon Lewis** | **Pennaeth y Gwasanaeth** | **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf** |
| **Lorna Price** | **Meddyg Enwebedig (Carfan Diogelu Genedlaethol)** | **Iechyd Cyhoeddus Cymru** |
| **Nikki Harvey** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion** | **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** |

## ATODIAD 2 –
## STRWYTHUR Y BWRDD

